**Eluned Morgan AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

SeneddCCGG@senedd.cymru

10 Ebrill 2024

Annwyl Mark

Rwy'n ysgrifennu i egluro'r trefniadau ar gyfer cyhoeddi adolygiadau annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r ymyrraeth mesurau arbennig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Rwy'n deall i'r Cadeirydd ddweud yn ystod ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar 7 Mawrth mai mater i Lywodraeth Cymru yw penderfynu ble a phryd y byddai'r adolygiadau annibynnol yn cael eu cyhoeddi. Nid dyma'r dull gweithredu y cytunwyd arno gyda'r bwrdd iechyd.

Mae'r broses y cytunwyd arni ar gyfer ymdrin ag adroddiadau bob un o'r adolygiadau a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru fel a ganlyn:

- Cyfarwyddwr Cyffredinol IGC/Prif Swyddog Gweithredol GIG Cymru i ysgrifennu at brif weithredwr y bwrdd iechyd i rannu'r adroddiad terfynol yn ffurfiol, gan osod y disgwyliadau ar gyfer y camau nesaf i'w cymryd gan y bwrdd iechyd.
- Y bwrdd iechyd i drefnu bod yr adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno gan yr adolygydd/adolygwyr i'w drafod yn sesiwn ddatblygu nesaf pwyllgor perthnasol y bwrdd.
- Y bwrdd iechyd i ddatblygu ymateb drafft ar lefel rheoli i'w gytuno gan bwyllgor perthnasol y bwrdd yn ei gyfarfod cyhoeddus nesaf.
- Y bwrdd iechyd i drefnu ystyriaeth o'r adroddiad terfynol a'r ymateb mewn cyfarfod o'r bwrdd. Bydd papurau'r bwrdd, gan gynnwys copi o'r adroddiad terfynol a'r ymateb, i'w cyhoeddi ar wefan y bwrdd iechyd cyn cyfarfod y bwrdd.

Fel rhan o'r ymyrraeth mesurau arbennig, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu 10 o adolygiadau annibynnol yn ymwneud â nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys diogelwch cleifion; gwasanaethau fasgwlaidd; iechyd meddwl; y gweithlu; cynllunio; a chyfathrebu ac ymgysylltu. Mae pob un o'r 10 adolygiad hyn wedi eu cwblhau, ac mae'r adroddiadau terfynol wedi cael eu rhannu'n ffurfiol gyda'r bwrdd iechyd. Mae'r bwrdd iechyd wedi

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cyhoeddi'r adroddiadau terfynol a'i ymateb ar lefel reoli ar gyfer pedwar o'r adolygiadau hyn, fel rhan o bapurau a gyhoeddwyd ar gyfer ei gyfarfod bwrdd ym mis Tachwedd 2023.

Rwyf hefyd wedi cyhoeddi dolenni at yr adroddiadau hyn yn fy adroddiad blynyddol a gyhoeddwyd ar 28 Chwefror 2024: Mesurau arbennig Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: adroddiad cynnydd blwyddyn 1 [HTML] | LLYW.CYMRU

Mae'r bwrdd iechyd hefyd wedi comisiynu nifer o adolygiadau fel rhan o'i ymateb i fesurau arbennig, ac rwy'n disgwyl i'r rhain gael eu trin yn yr un modd.

Yn gywir

**Eluned Morgan AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care

Copïau at: Carol Shillabeer – Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Dyfed Edwards – Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr